# Addysg / Education

Pennaeth Addysg /
Head of Education – Garem Jackson

Gofynnwch am/Ask for: **Garem Jackson**
☎ (01286) 679467 Ein Cyf / Our Ref: **GJ/CC**
(01286) 677347 Eich Cyf / Your Ref:
GaremJackson@gwynedd.llyw.cymru

5 Tachwedd 2021

Annwyl Rieni/Ofalwyr

Mae wedi dod i'n sylw bod rhai disgyblion yn ein hysgolion uwchradd wedi bod yn gwneud ffilmiau byr ac yn eu huwchlwytho ar wefan Tik Tok tra yn yr ysgol. Atgoffir nad yw disgyblion yn cael ffilmio ar eiddo ysgol heb ganiatâd. Mae'r Awdurdod Lleol wedi gofyn i ysgolion atgoffa disgyblion na chaniateir iddynt uwchlwytho ffilmiau byr anawdurdodedig yn enw eu hysgol.

Ym mhob achos, rydym wedi gofyn i ysgolion ystyried sancsiynau priodol ar gyfer y disgyblion hynny sydd wedi ffilmio ac uwchlwytho deunydd amhriodol sy'n cynnwys staff ysgolion a disgyblion tra ar eiddo ysgol. Mae sancsiynau posib yn cynnwys gwaharddiad allanol a gallant gynnwys Heddlu Gogledd Cymru mewn sefyllfaoedd eithafol.

Gofynnwn yn garedig i rieni a gofalwyr drafod y mater hwn â'u plant a phwysleisio'r neges hon. Gwiriwch gyfrifon ffonau symudol/cyfryngau cymdeithasol eich plant i sicrhau bod unrhyw fideos perthnasol wedi'u dileu. Bydd ysgolion yn parhau i fonitro cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys Tik Tok, dros yr ychydig ddyddiau ac wythnosau nesaf ac yn cymryd y camau angenrheidiol.

Mae cymunedau cyfan yn wynebu heriau sylweddol ar hyn o bryd, ac rwy'n siŵr y byddwch chi i gyd yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi ein hysgolion i hyrwyddo parch a charedigrwydd wrth inni wynebu'r heriau hyn gyda'n gilydd.

Diolch yn fawr am eich cefnogaeth barhaus.

Yn gywir

**Garem Jackson**
**Pennaeth Addysg**